

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cofnodion Is-bwyllgor Y Fynwent - 21.01.2020

Cynhaliwyd y pwyllgor am 9.30 y bore yn y Fynwent Newydd.

Presennol: Rhodri Jones, Heledd Jones, Alwyn Jones, Arwel Jones, Huw P Roberts a Bethan Edwards, Swyddog y Fynwent ac Arfon Owen, Bontddu.

Ymddiheuriadau: Lis Puw, Alwyn Roberts.

Pwrpas y cyfarfod oedd i drafod efo Arfon Owen ynglyn â llenwi a lefelu beddau a symud cyrbiau os yn bosib. Edrychwyd ar feddau ym mhendraw rhan yr Eglwys ac ar ôl trafodaeth penderfynwyd ei fod yn edrych ar 2 rhes o'r gwaelod a gwneud gwaith yn cyfateb i wythnos ( i fyny i £1500 ) - **fel peilot** - i'r Cyngor ag Arfon Owen gael syniad o beth fyddai'r gwaith angenrheidiol a'r gôst. Petai angen sefydlu carreg ei fod yn cael hawl i gysylltu â'r Brodyr Evans - sydd wedi cytuno i gynorthwyo os bydd rhaid.

Cynigiodd Alwyn Jones bod y Cyngor yn rhoi ar bapur y manylion uchod i Arfon Owen a bod angen llythyr i'r brodyr Evans y/a rhoi caniatad iddynt sefydlogi cerrig os bydd raid os nad oes cysylltiad â'r teulu.

Soniwyd hefyd y dylid hysbysu yn y papur pan fydd y gwaith yn cychwyn .

Bethan Edwards